Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.10 Gwybodaeth llywodraeth leol

Mae gan fudiadau gwirfoddol a'r 22 awdurdod lleol unedol yng Nghymru ddiddordeb byw yn lles yr ardaloedd y maent yn gweithio ynddynt ac mewn grymuso pobl leol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau – boed honno'n gymuned sy'n rhannu lleoliad neu fuddiant.

Pan fydd pobl yn siarad am lywodraeth leol, fel arfer maent yn siarad am y 22 o awdurdodau unedol, ond mae yna hefyd haen arall o wleidyddiaeth leol mewn llawer rhan o Gymru, a elwir yn gynghorau tref neu gymuned. Mae gennym daflen wybodaeth ar wahân am hyn.

Disgwylir i awdurdodau lleol roi arweiniad clir i'w cymunedau, gan ddarparu a sicrhau gwasanaethau o safon a bod yn agored, yn hygyrch ac yn atebol. Disgwylir iddynt weithio mewn gwir bartneriaeth gyda'r sector gwirfoddol ac eraill i gytuno ar nodau a blaenoriaethau cyffredin a sut mae cydweithio i gyflawni'r rhain.

Mae mudiadau gwirfoddol yn cynnwys pobl a chymunedau yn y broses o ysgwyddo cyfrifoldeb dros ganfod atebion i'w problemau eu hunain, dechrau a rheoli eu gwasanaethau a'u cyfleusterau eu hunain a phwyso am ddarpariaeth well a mwy priodol gan ein cyrff cyhoeddus.

Gyda'i gilydd, gall awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol gael dylanwad enfawr ar ansawdd bywyd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Beth mae Awdurdodau Lleol yn ei wneud?

Er bod hanes llywodraeth leol yng Nghymru yn ymestyn yn ôl i'r 16eg ganrif o leiaf, mae'r 22 awdurdod unedol presennol yng Nghymru yn dyddio o 1996. Nid yw'r rhain yn cael eu rhannu'n gynghorau sir a dosbarth; maent yn bodoli fel un haen 'unedol', gan ddarparu holl wasanaethau llywodraeth leol i gymunedau lleol.

Mae dros 1,200 o gynghorwyr yng Nghymru a chaiff etholiadau eu cynnal bob pedair blynedd. Mae'r cynghorau'n gwario tua £4 biliwn y flwyddyn ar eu gwasanaethau ac yn cyflogi 150,000 o bobl. Daw 80 y cant yn fras o'r cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r 20 y cant arall yn dod o'r dreth gyngor.

Mae gan awdurdodau lleol ddwy swyddogaeth fras:

- Rhoi arweiniad cymunedol – arwain, dylanwadu ar a chynorthwyo cyrff partner i weithio tuag at amcanion cyffredin er mwyn diwallu anghenion a gwireddu dyheadau eu cymunedau.
- Darparu ystod eang o wasanaethau personol, cymunedol ac amgylcheddol i unigolion a chymunedau cyfan.

Mae cynghorau'n darparu tri math o wasanaethau i'w cymunedau:

1. Gwasanaethau statudol (y mae rhaid iddynt eu darparu), megis gofal cymdeithasol, tai, addysg, casglu sbwriel, cynllunio, trafnidiaeth a phriffyrdd, diogelwch cymunedol a gwasanaethau tân ac achub

2. Gwasanaethau rheoliadol (y mae rhaid iddynt eu darparu). Fel yr awgrymir, dyma wasanaethau parthed agweddau rheoli'r amgylchedd allanol, megis iechyd yr amgylchedd, cynllunio sut mae rheoli datblygu, safonau masnach a thrwyddedu

3. Gwasanaethau dewisol (y gallant ddewis eu darparu), megis gwasanaethau twristiaeth, diwylliant a hamdden

Mae cynghorau'n darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol, yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill, ac yn comisiynu eraill i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan. Mae mudiadau trydydd sector yn bartneriaid tyngedfennol yn narpariaeth gwasanaethau'r awdurdodau lleol, o ran rhoi llais i ddinasyddion i ddylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflenwi ac fel darparwyr gwasanaethau eu hunain.

Strwythur y cynghorau

Mae'n bwysig deall strwythur yr awdurdodau lleol er mwyn deall sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a sut, wedyn, y gallwch chi ddechrau dylanwadu ar y broses benderfynu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cynghorau wedi moderneiddio eu trefniadau rheoli. Mae systemau pwyllgorau a oedd wedi bodoli cyhyd (ydych chi'n cofio'r pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol a'r pwyllgor addysg?) wedi cael eu disodli gan fodelau llywodraethu gweithredol a seilir yn fras ar system gabinet o lywodraeth. Yng ngweithrediaeth y model cabinet (grŵp bach sy'n cynnwys arweinydd y cyngor a chynghorwyr sydd â chyfrifoldebau portffolio penodol megis y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg), gwneir penderfyniadau y bydd y cyngor llawn yn pleidleisio arnynt wedyn. Yn amlwg, mae cyfeiriad a dewisiadau polisi y blaid wleidyddol gryfaf yn debygol o gael eu cymeradwyo gan y bydd y cynghorwyr yn pleidleisio yn unol â safbwynt eu plaid.

Mae gan 19 o'r cynghorau gabinet ynghyd ag arweinydd. Caiff y 3 chyngor arall (Powys, Gwynedd a Merthyr Tudful) eu rhedeg gan fwrdd gweithredol a chydbwysedd gwleidyddol arno, ond eto mae hwn yn grŵp llai o gynghorwyr, yr un fath â'r cabinet yn

y 19 ardal arall. Ceir strwythurau staff helaeth ym mhob awdurdod ac yn bennaeth arnynt ceir prif weithredwr sy'n gweithio gydag uwch swyddogion eraill ar fusnes a phenderfyniadau o ddydd i ddydd.

Felly, y cabinet neu'r bwrdd yw sail grym unrhyw gyngor ac mae'r cynghorwyr sy'n aelodau o'r cabinet neu'r bwrdd yn amlwg yn uchel eu proffil ac yn rymus o safbwynt gwleidyddiaeth leol. Fodd bynnag, mae cynghorwyr meinciau cefn hefyd yn bwysig o ran y ffordd y mae cynghorau'n gweithredu. Efallai y byddant yn gwasanaethu ar y pwyllgorau rheoliadol y mae rhaid i gynghorau eu cael, megis trwyddedu a rheoli datblygu. Neu, efallai y byddant yn ymwneud â'r swyddogaeth graffu, lle caiff y cabinet neu'r bwrdd ei ddal i gyfrif am ei benderfyniadau ac y bydd polisïau a gwasanaethau'n cael eu harchwilio er mwyn eu gwella. Mae craffu yn swyddogaeth eithriadol o bwysig o fewn awdurdodau lleol ac mae'n rhywbeth y caiff mudiadau'r trydydd sector gyfle i gyfrannu iddo. We have a separate information sheet on the scrutiny function.

Ymgysylltu â llywodraeth leol a dylanwadu arni.

Gallwch gymryd rhan yng ngwaith eich awdurdod lleol a dylanwadu ar ei waith mewn amryw ffyrdd:

Gwybod pwy yw eich swyddogion a'ch aelodau etholedig

Yn gyntaf, mae'n werth i chi wybod pwy yw cynghorwyr eich ward. Dyma'r aelodau a gaiff eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli'ch ardal chi o fewn yr awdurdod lleol. Bydd gan bob ward un cynghorydd o leiaf, ond bydd gan rai wardiau mwy poblog fwy nag un. Os ydych chi'n awyddus i gael gwybodaeth am eich cynghorwyr lleol, y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cysylltu â'ch cyngor lleol neu fynd i www.writetothem.com

Mae hefyd yn werth gwybod pa gynghorwyr sydd yn y cabinet (a elwir hefyd yn fwrdd gweithredol). Mae gan aelodau'r cabinet feysydd cyfrifoldeb penodol ac eang, e.e. gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n fuddiol meddwl pwy sy'n gyfrifol am ba gyfrifoldebau portffolio ac a yw eu cyfrifoldebau yn effeithio ar eich gwaith chi mewn unrhyw fodd. Gwnewch yn siŵr bod yr aelodau etholedig perthnasol yn gwybod am eich mudiad – cynigiwch iddynt alw heibio'ch mudiad; ewch i'w gweld yn eu cymorthfeydd lleol; anfonwch wybodaeth neu'r manylion diweddaraf am eich gwaith yn eu maes neu'u hardal hwy atynt (boed hynny yn eu maes diddordeb neu yn eu hardal ddaearyddol); rhowch wahoddiad iddynt ddod i'ch Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Yn yr un modd, mae'n ddefnyddiol cysylltu â swyddogion allweddol llywodraeth leol os yw eu cylch gwaith yn effeithio ar eich gwaith chi. Tra mae'r aelodau etholedig yn penderfynu pa lwybr y bydd pob ardal awdurdod lleol yn ei ddilyn, y swyddogion sy'n rhoi'r penderfyniadau hyn ar waith. Po fwyaf y gwyddant amdanoch, y mwyaf tebygol yw y byddant yn cysylltu â chi pan fydd materion sydd o ddiddordeb i chi yn codi.

Canfod pa faterion sy'n cael eu trafod

Gallwch ganfod pa faterion sy'n cael eu trafod ymhlith eich cynghorwyr lleol drwy fynd i gyfarfodydd a/neu edrych ar waith papur y cyfarfodydd hynny. Cewch fynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor, ond fel rheol, ni chewch siarad yn y cyfarfodydd hynny.

Rhaid i bob cyngor gyhoeddi 'blaengynllun gwaith' a fydd yn rhestru'r penderfyniadau a wneir dros y misoedd nesaf. Byddant hefyd yn cyhoeddi papurau cyfarfod o leiaf bum diwrnod gwaith ymlaen llaw, ac ar ôl hynny byddant yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfod, a fydd yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed. Dim ond mewn amgylchiadau prin y gall awdurdodau lleol atal y cyhoedd rhag mynd i gyfarfodydd a dal papurau yn ôl.

Bydd blaengynllun gwaith cyfarfodydd a'r gwaith papur a gyhoeddir ar gael ar wefan eich cyngor. Os ydych chi'n gwybod beth sy'n cael ei drafod, bydd gennych gyfle i ddylanwadu ar y drafodaeth drwy gysylltu â chynghorwyr.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Ffordd arall o ddarganfod beth sy'n digwydd o fewn eich cyngor yw defnyddio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i rym ar ddechrau 2005. Mae hwn yn rhoi hawl i unigolion neu fudiadau ofyn am wybodaeth sydd gydag awdurdod cyhoeddus (ac mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol). Mae'n caniatáu gofyn am wybodaeth a recordiwyd, megis e-byst, cofnodion cyfarfodydd, ymchwil neu adroddiadau. Dylech ddod o hyd i rywbeth ar wefan eich cyngor ar sut i wneud cais rhyddid gwybodaeth, ond yn ehangach, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig (gall fod yn electronig), a dylech gael ateb os yw'r wybodaeth ar gael, a chael y wybodaeth wedi'i anfon atoch o fewn 20 niwrnod i wneud y cais.

Weithiau bydd eich cyngor yn medru atal gwybodaeth, os fyddai rhyddhau gwybodaeth yn niweidio diogelwch cenedlaethol neu ddiddordebau masnachol. Hefyd, nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i chi fynd am wybodaeth bersonol ynghylch eich hunan (er y gellir derbyn y wybodaeth yma drwy'r Ddeddf Diogelu Data 1998). Hefyd, nid oes rhaid i'r cyngor ddelio gyda gofidion neu geisiadau mynych am wybodaeth.

Mae yna dderbyniadau cost i dderbyn gwybodaeth. Gall cyngor wrthod cais os yw'n amcangyfrif bydd y gost yn fwy na £450. Ble nad yw'r terfyn wedi'i ragori, yr unig gostau aelir eu pasio i chi yw'r rhai sy'n gysylltiedig â darparu'r wybodaeth, er enghraifft llungopïo a phostio.

Gellwch ddarganfod mwy am Ryddid Gwybodaeth ar wefan eich cyngor neu ar wefan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar
www.ico.gov.uk/what_we_cover/freedom_of_information.aspx

Compactau

Datganiadau strategol yw compactau sy'n pennu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol unigol a'r sector gwirfoddol. Mae compactau yn mynegi'r diddordebau sy'n gyffredin rhyngddynt ac yn cydnabod eu swyddogaethau a'u gwahaniaethau unigol. Cydnabyddir annibyniaeth y sector gwirfoddol gydag ymrwymiad i ymgynghori'n eang ac yn strwythuredig.

Fel rheol, Cydbwyllgorau Cyswllt sy'n llunio Compactau ac yn cytuno arnynt, a dylent ymdrin â'r berthynas rhwng pob rhan o'r awdurdod lleol gyda phob grŵp buddiant yn y sector gwirfoddol. Dylent ddangos ymrwymiad gwleidyddol ar y lefel uchaf yn yr awdurdod lleol. Bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gwybod mwy am gompact eich ardal chi, beth mae'n ei ddweud a sut y mae dylanwadu ar y broses o'i roi ar waith yn lleol.

Cydbwyllgor Cyswllt

Fel rheol, Grŵp neu Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yw'r prif gyswllt rhwng y sector gwirfoddol ac unrhyw awdurdod lleol unigol. Fel rheol, mae'n cynnwys aelodau cyngor etholedig a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol. Mae'n cytuno ar y compact a hefyd yn brif gyfrwng ar gyfer sicrhau y caiff y compact a'i gynlluniau cysylltiedig eu rhoi ar waith. Pan fydd Cydbwyllgor Cyswllt yn bodoli, bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirol bob amser yn hwyluso cyfraniad y sector gwirfoddol. Caiff cyfraniad yr awdurdod lleol ei hyrwyddo gan wahanol rannau o'r awdurdod mewn meysydd gwaith gwahanol megis gwasanaethau corfforaethol a gwasanaethau cymdeithasol. Cofiwch gysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Siroli ganfod mwy am Gydbwyllgor Cyswllt eich ardal chi.

Cynlluniau a Strategaethau

Mae'n bwysig gwybod a deall sut y mae dylanwadu ar y gwahanol gynlluniau a strategaethau y mae eich cyngor yn eu cynhyrchu. Cafwyd nifer o newidiadau pwysig i'r fframwaith ar gyfer cynhyrchu strategaeth o fewn awdurdodau lleol yn ddiweddar, ac mae gennym daflen wybodaeth ar wahân am hyn.

Byrddau Gwasanaethau Lleol

Byrddau Gwasanaethau Lleol yw model newydd Cymru ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus Cymru drwyddo draw mewn ffordd newydd o weithio, drwy integreiddio gwasanaethau ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion dinasyddion. Pwrpas sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol yw galluogi arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus lleol i ymateb i ddinasyddion yn fwy effeithiol. Mae amryw o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu fel 'elfen weithredol' y Partneriaethau Strategaeth Gymunedol, a'r rheini yw fforwm pennu gweledigaeth allweddol y gymuned o hyd.

Y nod yw gwella gwasanaethau lleol ar gyfer dinasyddion drwy gronni adnoddau a dileu biwrocratiaeth neu rwystrau eraill. Bydd un o uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda phob tîm arwain lleol er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Nid yw'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fudiadau nac yn sefydliadau newydd – nhw yw'r tîm arwain lleol. Bydd eu haelodau'n cynnwys arweinwyr allweddol o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, a fydd yn gweithio fel partneriaid cydradd, yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd dros gydgysylltu rhwydwaith cyfan y gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal. Byddant yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill yn eich ardal o feysydd megis iechyd, yr heddlu a'r sector preifat, felly mae hwn yn gyfle da i ddylanwadu ar waith rhanddeiliaid eraill yn ogystal â'r awdurdod lleol. Bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirolyn gwybod mwy am drefniadau lleol.

Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Bydd gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn seiliedig ar gymuned yr ardal, ac ar sail hynny, bydd y Byrddau'n cytuno ar set o gyd-gamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cyflawni hyn ac yn sicrhau y cânt eu cyflawni. Caiff y camau hyn eu rhoi ar waith fel Cytundebau Cyflenwi Lleol.

Eu swyddogaeth yw sicrhau arweinyddiaeth ddygn a chyd-gyfrifol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, mewn meysydd sy'n hollbwysig i'r ardal. Nid goruchwylio unrhyw un gwasanaeth penodol yw eu rôl, ond sicrhau ymateb system-gyfan effeithiol i anghenion dinasyddion. Dylai gwaith y Bwrdd fod yn seiliedig ar Strategaeth Gymunedol yr ardal.

Er enghraifft, pan gaiff gwasanaeth ei ddarparu gan ystod o wahanol gyrff, gall y Bwrdd ddatblygu patrymau gwaith newydd yn eu mudiadau cysylltiol, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau di-dor sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd problemau cyson a sylfaenol.

Y Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu

Mae hon yn swyddogaeth hynod o bwysig o fewn llywodraeth leol lle gellir herio penderfyniadau ac adolygu a gwella polisïau a gwasanaethau. Mae gennym daflen wybodaeth ar wahân am y swyddogaeth craffu.

Casgliad

Mae pob awdurdod lleol yn wahanol a bydd ganddynt ffyrdd gwahanol o wneud pethau yn lleol. Y ffordd orau o gael gwybod sut mae ymgysylltu â'ch cyngor penodol yw cysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol. Bydd gan y Cyngor gysylltiadau â'r awdurdod lleol yn barod a bydd yn gwybod am gynlluniau gweithredu a strwythurau lleol.

Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Gwybodaeth Bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ddefnyddiol am lywodraeth leol ar y gwefannau canlynol:

- www.walescandidateguide.co.uk Dyma ganllaw sylfaenol i gynghorwyr newydd neu bobl sy'n meddwl am sefyll mewn etholiad. Mae'r cynnwys llawer o wybodaeth am sut mae llywodraeth leol yn gweithio a beth yw gwaith cynghorwyr lleol.
- www.wlga.gov.uk Dyma wefan y *Welsh Local Government Association* (WLGA) sy'n cynrychioli diddordeb llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ar sail pynciau ar faterion sy'n effeithio llywodraeth leol. Mae'n werth nodi fod WCVA yn cydweithio'n agos gyda WLGA i gynrychioli diddordeb y trydydd sector mewn llywodraeth leol.
- www.idea.gov.uk Dyma wefan yr *Improvement and Development Agency* (IDeA) ar gyfer llywodraeth leol. Perchennog IDeA yw'r Gymdeithas Lywodraeth Leol, sy'n cynnwys y WLGA, ac mae'r wefan yn cynnwys digon o wybodaeth ar sail pynciau ac enghreifftiau ymarfer dda.
- www.urbanforum.org.uk Yn adran gyhoeddiadau'r wefan yma, gallwch lawrlwytho copi o'r llyfryn defnyddiol *How your Council Works - a handy guide for community groups*. Mae peth o'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr yn unig, ond mae'n werth ei gael am fod cymaint o'r wybodaeth yn berthnasol i Gymru.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk